**CYNGOR BRO MACHNO**

**Cofnodion** cyfarfod 11 Mehefin 2015 a gynhaliwyd yn Festri Salem am 7.30.

**Presennol:** D Gwyndaf (Cadeirydd), Aled Roberts, Eryl Owain, Dewi Jones, Dafydd Hughes, Eifion Davies, Geraint Thomas a Colin Jones.

**Derbyniwyd cofnodion** cyfarfod o'r Cyngor ar 12 Mai fel rhai cywir.

Trafodwyd y materion canlynol:

**Adroddiad Ariannol** – Cymeradwyd mantolen ariannol 2014-2015, cynigydd Colin Jones, eilydd Dafydd Hughes. Gwnaed asesiad o risgiau sy'n wynebu'r cyngor a chadarnhau'r camau priodol i reoli'r risgiau hynny.

**Gwariant ariannol** – penderfynwyd bod cyllid ar gael ar gyfer y toiledau, gwaith tacluso a diogelu ym mynwent yr eglwys a'r tir ger yr Hen Ysgol.

**Mynwent Arwelfa** – penderfynwyd bod angen arwydd wrth y giât yn nodi bod yn rhaid mynd ag unrhyw wair sydd yn cael ei dorri oddi yno ac i ddefnyddio'r bin ar gyfer unrhyw sbwriel neu i'w gludo oddi yno.

**Cwt Hers** – ni chafwyd ymateb gan y cyn-denant felly penderfynwyd hysbysebu bod y cwt hers ar gael ar rent o £200 y flwyddyn a'r tenant i gadw'r adeilad mewn cyflwr boddhaol.

**Toiledau** – dim ymateb gan Gyngor Sir Conwy

**Cais cynllunio, adeilad ger Siop y Foel** – penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad cyn belled a bod yr adeilad o fewn y canllawiau a'r safonau a osodir gan y Parc Cenedlaethol.

**Amserlen Bysiau** – mynegwyd anfodlonrwydd bod yr amseroedd wedi eu newid heb ymgynghori efo'r Cyngor Cymuned.

**Cyflog y Clerc** – penderfynwyd codi cyflog y clerc i 650.